



Raspberry Pi Foundation

Canllawiau ar sesiynau clwb ar-lein

Mae sesiwn ar-lein yn digwydd ar amser penodol, cyson gyda chymorth fideogynadledda neu adnoddau ffrydio byw. Mae rhedeg sesiynau ar-lein yn ffordd wych i'ch Code Club neu CoderDojo barhau i ddysgu gyda'ch gilydd nes eich bod yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb.

Rydyn ni wedi datblygu'r canllawiau hyn ar sail profiadau ac adborth aelodau o'r gymuned, a byddwn ni'n eu diweddarau yn ôl yr angen.

P'un ai bod gennych chi dri dysgwr neu dri deg yn eich clwb, **chi sy'n adnabod eich cymuned orau**. Mae profiad pob clwb yn unigryw felly rydyn ni'n eich annog i addasu'r canllawiau hyn i'w gwneud yn addas i'ch clwb chi.

Pum pwynt ar gyfer cynnal sesiynau ar-lein:

- [1. Diogelu](#)
- [2. Sut mae dewis yr adnodd ar-lein cywir](#)
- [3. Diogelu data](#)
- [4. Cyfathrebu â phobl ifanc, rhieni a gwirfoddolwyr](#)
- [5. Dylunio eich sesiwn](#)

1. Diogelu

Ar draws yr holl weithgareddau mae'r Raspberry Pi Foundation yn eu cefnogi, rydyn ni wedi ymrwymo'n gryf i ddiogelu. Rydyn ni'n credu na ddylai unrhyw blentyn, person ifanc nac oedolyn agored i niwed byth ddioddef camdriniaeth o unrhyw fath. Mae gan bob un ohonom ni gyfrifoldeb i hybu lles pob plentyn, person ifanc ac oedolyn agored i niwed, ac i'w diogelu.

Mae [cod ymddygiad diogelu](#) y Raspberry Pi Foundation yn berthnasol i weithgareddau ar-lein ac i gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Yr unig wahaniaeth ydy'r gymhareb rhwng oedolion a phobl ifanc: **ar gyfer gweithgareddau ar-lein, dylai fod dau oedolyn o leiaf yn bresennol bob amser. Rhaid i un o'r oedolion hynny fod yn wirfoddolwr Code Club neu CoderDojo cofrestredig gydag archwiliad cefndir cyfredol.**

Mae modd i oedolion eraill, boed wirfoddolwyr neu rieni, gymryd rhan mewn sesiynau ar-lein, cyhyd â'ch bod yn eu goruchwyllo bob amser ac yn cyfyngu ar eu mynediad at wybodaeth bersonol pobl ifanc. Ni ddylai unrhyw un redeg sesiynau un-i-un â pherson ifanc unigol ar unrhyw adeg.

Rhaid i chi sicrhau'r canlynol hefyd:

- ✓ Dylai pobl ifanc gael caniatâd eu rhieni i gymryd rhan yn eich sesiwn ar-lein.
- ✓ Dylai rhiant neu oedolyn arall fod yn bresennol yn y tŷ yn ystod y sesiwn ar-lein. Does dim rhaid iddynt fod yn yr un ystafell ond dylent wybod bod y sesiwn yn digwydd.
- ✓ Rhowch gyngor i rieni y dylai eu plant gymryd rhan yn y sesiwn ar-lein wrth eistedd mewn man agored yn y tŷ, neu mewn ystafell gyda'r drws ar agor.
- ✓ Rhowch ddolen i [dudalen diogelu](#) y Raspberry Pi Foundation i rieni er mwyn iddynt wybod lle i roi gwybod am unrhyw bryderon.
- ✓ Rhaid i'r holl gyfathrebu â phobl ifanc fod yn agored a dylech osgoi defnyddio adnoddau ar-lein sy'n caniatáu negeseuon preifat rhyngoch chi a'ch dysgwyr, neu rhwng dysgwyr. Os bydd dysgwr yn anfon neges breifat atoch, atebwch yn y sgwrs gyhoeddus bob amser er mwyn dychwelyd i sgwrs i fan agored.
- ✓ Mae'n iawn defnyddio gwe-gamerâu yn ystod y sesiwn ond gwnewch yn siŵr bod pawb yn gwybod nad oes hawl ganddynt i recordio na chymryd sgrinluniau o'r sesiwn.
- ✓ Os byddwch chi'n rhannu eich fideos/lluniau cyfarwyddol eich hun â phobl ifanc, gwnewch yn siŵr bod eich cefndir yn addas i blant ac nad oes unrhyw beth amhriodol i'w weld. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwirio fwy nag unwaith eich bod yn rhannu'r ffeil fideo/llun cywir ac nad oes manylion personol i'w gweld ynddi, gan gynnwys gwybodaeth a allai ddweud ble rydych chi'n byw.
- ✓ Rhowch wybod i rieni bod pobl ifanc yn cael anfon eu prosiectau atoch chi fel dolenni neu fideos/lluniau, a gwneud yn siŵr bod pobl ifanc wedi cael caniatâd eu rhieni cyn rhannu unrhyw gynnwys â chi.
- ✓ Peidiwch â rhannu unrhyw fanylion personol â dysgwyr drwy unrhyw adnodd cyfathrebu.

Gwylwch ein recordiad '[Best practice for online sessions](#)'. Gallwch gymryd rhan yn un o'n [gweithdai ar-lein](#) byw, rheolaidd hefyd.

2. Sut mae dewis yr adnodd ar-lein cywir

Gallech chi ddefnyddio nifer o wahanol adnoddau ar-lein i gynnal sesiynau clwb ar-lein. Mae eu swyddogaethau, eu cost a'u defnyddioldeb yn amrywio. Os ydy eich dysgwyr dan 13 oed, bydd bron pob adnodd ar-lein yn mynnu bod eu rhieni'n mewngofnodi ar eu rhan neu'n awdurdodi eu cyfrifon.

Dylech ddim ond defnyddio adnoddau ar-lein sy'n caniatáu'r swyddogaethau diogelwch canlynol:

- Creu grwpiau caeedig neu breifat lle mae IDs newydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer pob sesiwn.
- Nodwedd 'ystafell aros' i reoli mynediad gwsteion. Peidiwch â rhannu eich ID sesiwn personol, a dim ond gadael i bobl sy'n rhan o'ch clwb ymuno.
- Mae'r lletywr yn gallu tewi a thynnu unigolion.

Dyma rai adnoddau ar-lein gallech chi ddewis eu defnyddio:

- Adnoddau fideogynadleda fel BigBlueButton, Cisco WebEx, Google Meet, a Zoom. **Edrychwch [ar y tabl hwn i weld cymhariaeth o'u nodweddion.](#)**
- Gwasanaethau ffrydio fideos fel YouTube Live.
- Atebion ystafell ddsbarth yn y cwmwl fel Microsoft Teams a Google Classroom.
- Cyfresi swyddfa cydweithredol fel Office 365 a Google Docs.
- Adnoddau torri'r ias fel Kahoot! a Padlet.
- Adnoddau arddangos fel Flipgrid a Scratch Studios.

Mae'r gymuned wedi rhoi cynnig ar amrywiaeth o adnoddau. Roedd yn gweld y canlynol yn ddefnyddiol:

- Mae **Google Workspace for Education**, sy'n cynnwys **Google Meet** a **Google Classroom**, am ddim i ysgolion a Dojos (drwy ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost coderdojo.com).
- Mae **Zoom** wedi cael gwared ar y cyfyngiad 40 munud i ysgolion a Dojos (drwy ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost coderdojo.com) ar fersiwn sylfaenol ddi-dâl eu hadnodd am y tro.
- Drwy ddefnyddio naill ai **Microsoft Teams** neu **Google Classroom**, gallwch gyfuno gweithgareddau o bell â sesiynau ar-lein yn hawdd, gan fod y ddau adnodd hyn yn caniatáu i chi anfon deunyddiau ac adborth, cael cwestiynau, a chynnal sesiynau byw.

Pan fyddwch chi'n dewis adnodd ar-lein, meddyliwch am y canlynol:

- ✓ **Ydy eich dysgwyr eisoes yn defnyddio adnodd ar-lein penodol ar gyfer gweithgareddau eraill?** Bydd hi'n haws iddynt ymuno â'ch sesiwn os byddwch chi'n ei chynnal gan ddefnyddio adnodd sy'n gyfarwydd iddynt.
- ✓ **Ydy'r adnodd yn caniatáu cyfathrebu preifat rhwng oedolion a phobl ifanc, neu rhwng pobl ifanc?** Mae hyn yn peri risg diogelu felly cofiwch analluogi'r swyddogaethau hyn i'ch sesiynau, neu osgoi defnyddio adnoddau sy'n caniatáu hyn.
- ✓ **Ydy'r adnodd yn mynnu bod gan bobl ifanc gyfrif ar-lein?** Mae'r rhan fwyaf o adnoddau cyfathrebu lle mae angen cyfrif yn mynnu bod y rhai â chyfrif dros 13 oed. Os ydy'r bobl ifanc yn eich grŵp o dan derfyn oedran yr adnodd rydych chi am ei ddefnyddio, bydd rhaid i'w rhieni neu ofalwyr osod y cyfrif ac aros gerllaw drwy gydol y sesiwn.
- ✓ **Oes angen gosod yr adnodd ar gyfrifiaduron y dysgwyr?** Gallai hyn fod yn broblem i ddysgwyr heb hawliau gweinyddol ar eu cyfrifiaduron.
- ✓ **Ydy'r adnodd yn gweithio ar fwy nag un system weithredu a phorwr gwe, ac a oes modd ei ddefnyddio am ddim?** Gwnewch yn siŵr bod yr adnodd ar gael yn ddi-dâl i'r holl gyfranogwyr.

3. Diogelu data

Chi sy'n gyfrifol am y data personol rydych chi'n eu casglu, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn egwyddorion diogelu data eich gwlad. Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn berthnasol yn yr UE ac mae'n rhaid i'r holl ddarparwyr technoleg mewn gwlad yn yr UE gadw at egwyddorion GDPR. Ond nid ydy hynny bob amser yn wir i gwmnïau o'r tu allan i'r UE. Felly, os ydych chi'n byw yn yr UE ac yn dymuno defnyddio adnodd ar-lein sydd wedi'i ddarparu gan gwmni o'r tu allan i'r UE (e.e. caiff Zoom ei ddarparu gan gwmni yn UDA), rhaid i chi wirio ei bolisi preifatrwydd i wneud yn siŵr bod y cwmni'n dilyn egwyddorion GDPR. Ewch i wefannau'r awdurdodau goruchwylio perthnasol ar gyfer diogelu data yn eich gwlad am fwy o fanylion, gan eu bod yn darparu diweddariadau rheolaidd ar risgiau'n ymwneud â diogelu data.

Wrth ddewis rhwng gwahanol adnoddau ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen polisiau diogelwch a phreifatrwydd y cwmnïau sy'n darparu'r adnoddau. Dylech ddod i wybod sut maen nhw'n caniatáu i chi ddelio â'r materion canlynol:

- ✓ **Cyfyngu ar ddefnyddio a chadw data personol:** Dylid rhannu ffeiliau yn ôl yr angen yn unig a gyda data personol cyfyngedig. Cadwch unrhyw ddata personol rydych chi'n eu casglu a'u dileu cyn gynted â phosib er mwyn lleihau'r risg o dorri rheolau data personol, a gweithredu yn unol â disgwyliadau'r unigolion.
- ✓ **Cyfyngu ar fynediad at unrhyw ddata personol:** Cyfyngwch ar fynediad at yr adnodd ar-lein a'r data ynddo i'r rhai sydd angen mynediad yn unig.
- ✓ **Os ydych chi'n casglu data personol, rhowch wybod i'ch cyfranogwyr sut byddwch chi'n eu defnyddio:** Mae angen bod yn glir ac yn dryloyw am hyn.
- ✓ **Ydy'r adnodd yn ddiogel?** Darllenwch bolisiau preifatrwydd a chwcis yr adnodd a gwneud yn siŵr eich bod wedi gosod y gosodiadau diogelwch a data ar y lefel briodol. Wrth asesu lefel ddiogelwch adnodd, ystyriwch y canlynol:
 - Ydy'r adnodd yn gofyn am gyfrinair cryf?
 - Oes modd creu rolau ar sail gofynion mynediad?
 - Ydy'r cyfathrebu ar yr adnodd wedi'i amgryptio?

4. Cyfathrebu â phobl ifanc, rhieni a gwirfoddolwyr

Rhowch wybod i rieni a gwirfoddolwyr y bydd eich sesiwn yn cael ei chynnal ar-lein a chynnwys y ddolen i [dudalen diogelu](#) y Raspberry Pi Foundation yn eich cyhoeddiad. Rhannwch y ddolen i'ch sesiwn ar-lein ac unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer ymuno (bydd hyn yn dibynnu ar sut rydych chi'n dylunio eich sesiwn). Hefyd rhannwch pa weithgareddau rydych chi wedi'u cynllunio i'ch dysgwyr a chynnwys dolenni i unrhyw brosiectau ar-lein neu ffeiliau PDF fydd eu hangen arnynt.

- Rhaid i'ch cyfathrebiadau ag aelodau o'r clwb y tu allan i sesiynau'r clwb gael eu cyfeirio at rieni'r bobl ifanc, nid yn uniongyrchol i'r bobl ifanc, bob amser.
- Os nad oes gennych ffordd o gysylltu â rhieni'r aelodau o'r clwb yn uniongyrchol, gofynnwch i'ch lleoliad am gymorth.
- Cymerwch ofal i beidio byth â rhannu'r manylion mynediad i'ch sesiwn ar-lein yn gyhoeddus, er mwyn gwneud yn siŵr mai dim ond y bobl rydych chi'n eu gwahodd sy'n gallu cymryd rhan.
- Rhowch gyfle i rieni ddatgelu a fydd angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn i fodloni ei anghenion dysgu unigol.

5. Dylunio eich sesiwn

Cyn cyhoeddi eich sesiwn ar-lein, dyluniwch ei strwythur a pharatoi eich deunyddiau. Bydd paratoi ar gyfer eich sesiwn gyntaf yn cymryd hirach nag y bydd ar gyfer sesiynau yn y dyfodol oherwydd bydd yn cynnwys sefydlu eich adnoddau a'ch offer. Rydyn ni'n argymhell bod sesiynau'n para rhwng 60 a 90 munud.

Meddyliwch am strwythur eich sesiwn:

- ✓ Rhowch wybod ymlaen llaw i'r bobl ifanc a'r oedolion sy'n cymryd rhan pa weithgareddau rydych chi wedi'u cynllunio iddynt.
- ✓ Dylech atgoffa'r bobl ifanc a'r oedolion sy'n cymryd rhan o'r cod ymddygiad a'r ymddygiad sy'n cael ei ddisgwyl yn ystod y sesiwn ar-lein, fel peidio ag anfon negeseuon preifat na chymryd sgrinluniau.
- ✓ Treuliwch ychydig o amser ar ddechrau pob sesiwn yn gwneud yn siŵr bod y bobl ifanc yn gyfarwydd â'r adnodd ar-lein rydych chi wedi'i ddewis ar gyfer y sesiwn, ac yn gwybod sut mae ei ddefnyddio.
- ✓ Cynlluniwch weithgaredd torri'r ias ar gyfer dechrau'r sesiwn. Gallai hyn fod mor syml â gofyn i'ch dysgwyr ddweud helo a dweud wrth bawb eraill beth maen nhw'n bwriadu ei wneud.
- ✓ Penderfynwch a ydych chi am rannu dysgwyr mewn unrhyw ffordd, fel yn ôl oedran, iaith raglennu, neu lefel y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae gan rai adnoddau fideogynadledda ar-lein swyddogaeth i greu ystafelloedd ar wahân, neu gallwch greu mwy nag un sesiwn fideo i ddarparu ar gyfer gwahanol grwpiau. Rhannwch y ddolen neu ddolenni cywir â rhieni ymlaen llaw. Cofiwch fod angen dau oedolyn sy'n arweinydd clwb ym mhob amgylchedd ar-lein bob amser, gan gynnwys ystafelloedd ymylol.
- ✓ Ystyriwch hwyluso arddangosiad ar ddiwedd y sesiwn er mwyn i ddysgwyr allu arddangos eu prosiectau.

Rydyn ni wedi llunio canllawiau manylach ar [ddylunio eich sesiwn ar-lein](#) ar gyfer eich clwb, gan gynnwys templed amserlen sesiynau y gellir ei lwytho i lawr.

Elusen gofrestredig yn y DU 1129409
www.raspberrypi.org
Tachwedd 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: